

Crynodeb:

Mentrau Cydweithredol Cymdeithasol
Agenda Cyd-gynhyrchu Democrataidd ar gyfer
Gwasanaethau Gofal yn y DU

Gan Pat Connaty, Ymgynghorydd Ymchwil, Co-operatives UK

Crynodeb

Nid oes mis yn mynd heibio heb stori arswyd arall yn y newyddion a'r cyfryngau ynglŷn â chyflwr cythryblus ein gwasanaethau iechyd a gofal. Mae'r erlyniadau yn Winterbourne View a chwymmp Southern Cross a'i achub dilynol gan y sector cyhoeddus yn symptom o system gwasanaeth gofal genedlaethol mewn argyfwng. A oes model perchnogaeth sy'n atebol yn ddemocrataidd ar gyfer gwasanaethau gofal ac iechyd a allai wneud gwahaniaeth? Yn syml, a allai aelodaeth ymarferol a rheolaeth gydweithredol ar weithwyr, defnyddwyr gwasanaethau, gwirfoddolwyr ac aelodau teuluoedd, feithrin ymddiriedaeth y cyhoedd o'r newydd mewn gwasanaethau gofal a dod â chreulondeb ac esgeulustod i ben trwy drawsffurfio perchnogaeth gan randdeiliaid sy'n gynhwysol yn gymdeithasol? Y cwestiynau mawr hyn yw ffocws yr astudiaeth hon.

Mae'r adroddiad hwn yn adolygu arfer gorau yn y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol cydweithredol; a thrwy adolygiad cymharol, yn llunio gwersi o brofiad rhyngwladol sy'n berthnasol i'r DU. Mewn nifer gynyddol o wledydd o Ewrop i Ganada a Japan, mae modelau cydweithredol amrywiol o ofal cymdeithasol yn ehangu ac yn datblygu systemau atebolrwydd newydd a chreadigol gyda ffurfiau dynamig o aelodaeth a pherchnogaeth gymunedol gynhwysol.

Datblygiad Gofal Cydweithredol

Ym 1980, galwodd Alex Laidlaw, Ysgrifennydd Cyffredinol y Gyng rhair Gydweithredol Rhyngwladol, am arloesi yn y sector cydweithredol o ran gwasanaethau gofal a lles. Hyd yn oed cyn hyn bu'r mudiad cydweithredol yn yr Eidal ar flaen y gad o ran arloesi wrth ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol ac iechyd. Yn ystod yr argyfwng cyllidol tua diwedd y 1970au, dechreuwyd system Cydsefyll Cymdeithasol Gydweithredol yn yr Eidal, a alluogodd gweithwyr, gwirfoddolwyr, defnyddwyr gwasanaethau, aelodau teuluoedd a darparwyr cyfalaf cydweithredol i ddod yn aelod randdeiliaid yn llywodraethu a pherchnogi'r gwasanaethau gofal. Datblygwyd rhaglen arloesi eithaf gwahanol ond llwyddiannus yn Japan, yn arbennig dros y deng mlynedd ar hugain diwethaf. Bu sefydlu strwythurau sefydliadol effeithiol a dosranedig yn yr Eidal a Japan yn holl bwysig.

Roedd deddfwriaeth newydd yn yr Eidal ym 1991 wedi meithrin ehangiad cenedlaethol trwy gyflwyno a hyrwyddo strwythurau cyfreithiol hyblyg ac aml-randdeiliad wedi'u cefnogi gan fframwaith galluogi cyllidol a pholisi. Ochr yn ochr â phartneriaethau gweithredol â nifer cynyddol o awdurdodau lleol, agorodd y newidiadau strategol hyn borth ar gyfer sefydlu mudiad 'menter gydweithredol gymdeithasol' ag enw newydd.

Yr hyn sy'n gwneud mentrau cydweithredol yn unigryw yw eu bod yn dathlu ac yn profi bod 'bach yn hardd' a hynny trwy ddulliau democratiaeth gysylltiadol dynamig. Mae gan y rhan fwyaf o fentrau cydweithredol cymdeithasol yn yr Eidal lai na 30 o weithwyr-perchnogion a llai na 100 o aelod randdeiliaid eraill. Yn anhygoel, gallant gynnal graddfa bobl a gweithredu'n effeithlon trwy systemau arloesol o gonsortia cydweithredol sy'n galluogi nifer o fentrau cydweithredol cymdeithasol lleol mewn tref neu ddinas i rannu gwasanaethau swyddfa gefn, cronni hyfforddiant, trosglwyddo gwybodaeth rhwng cyfoedion a thendro a phrynu nwyddau a chyflenwadau swmp ar y cyd.

Mae'r economi gydweithredol hon yn galluogi'r bychan i fod yn rymus. Er mwyn cynnal a lledaenu'r system hon o wytnwch ac amrywiaeth leol, mae gan bob menter gydweithredol gymdeithasol newydd ymrwymiad cyd-gymorth i sefydlu un arall. Mae'r fenter 'cydsefyll cymdeithasol' ychwanegol hon wedi helpu i ehangu'r system rhwydwaith llywodraethu. Trwy arfer a elwir yn yr Eidal yn egwyddor 'llecyn mefus', mae pob menter gydweithredol gymdeithasol yn ymrwymedig i ddechrau menter arall gan blannu o leiaf un disgynnydd yn llorweddol.

Esblygiad rhyngwladol mentrau gofal cydweithredol aml-randdeiliad

Mae llwyddiant a thwf cadarn y model yn yr Eidal ers 1991 yn dangos ei botensial. Heddiw mae dros 14,000 o fentrau cydweithredol cymdeithasol yn yr Eidal yn darparu amrywiaeth eang o wasanaethau gofal. Mae'r sector bellach wedi dod i oed gyda dros 400,000 o weithlu, trosiant blynyddol o dros €9 biliwn ac yn darparu gwasanaethau i dros bum miliwn o bobl.

Bu cydnabyddiaeth o lwyddiant yr Eidal yn lledu ar draws Ewrop a datblygwyd modelau mentrau gofal cydweithredol tebyg, er gyda newidiadau ac addasiadau, ym Mhortiwgal, Ffrainc a Sbaen ac, mewn ffyrdd gwahanol, yn y Ffindir, Gwlad Pwyl a Hwngari hefyd. Mae Gwlad Groeg wedi cyhoeddi deddfwriaeth yn ddiweddar i ddilyn yr un drefn. Quebec yng Nghanada mewn gwirionedd oedd y cyntaf i fabwysiadu model aml-randdeiliad yng nghanol y 1990au.

Mae datblygu mentrau gofal cydweithredol yn y DU wedi arafu ers 1990 ond mae arfer da yn dal i'w weld. Yn wir, mae rhai mentrau cydweithredol yn y DU yn cyflwyno gwasanaethau gofal cartref ar raddfa fawr. Mae Care and Share Associates (CASA) wedi ehangu i nifer o ranbarthau yn Lloegr trwy lwybr rhyddfrait gymdeithasol. Mae'r Childcare Co-operative a'r Foster Care Co-operative hefyd yn hynod lwyddiannus ac wedi lledu'n genedlaethol.

Ehangwyd mentrau meddyg teulu cydweithredol i ddarparu gwasanaeth cenedlaethol rhwng 1995 a 2004 ond mae newidiadau ailstrwythuro ers hynny wedi arwain at gwmp yn eu gwerth ar y farchnad. Heb gynnwys y cam hwn yn ôl, mewn rhai dinasoedd a rhanbarthau eraill, mae mentrau meddyg teulu cydweithredol yn ehangu eu sail rhanddeiliaid ac yn addasu i newidiadau. Mae South East London Doctors' Co-operative (SELDOC) yn enghraifft dda ac mae'n darparu gwasanaethau ar gyfer bwrdeistrefi Lewisham, Southwark a Lambeth.

Mae nifer o awdurdodau lleol yn ymchwilio i ddatrysiadau mentrau gofal cydweithredol neu'n arbrofi gyda micro-ddarparwyr megis Community Catalysts yn Swydd Nottingham. Yn ogystal, mae mentrau cydfuddiannol aml-randdeiliad mawr wedi datblygu yn y gwasanaethau gofal cymdeithasol ers 2011 yng ngorllewin Llundain, Kent, Essex a Swydd Lincoln.

Mae angen strwythur cyfreithiol democrataidd ar ddiddordeb polisi cynyddol y DU mewn modelau cyd-gynhyrchu ar hyn o bryd er mwyn darparu systemau perchnogaeth randdeiliaid a llywodraethu a rennir. Gellir dysgu llawer o arferion da a ddatblygwyd gan sefydliadau hawliau anabled.

Nodweddion allweddol mentrau cydweithredol cymdeithasol

Mae modelau mentrau cydweithredol cymdeithasol aml-randdeiliad yn ffurf unigryw a dynamig o fenter gymdeithasol ddemocrataidd. Maent yn lledu ar draws Ewrop ac mae eu gwreiddiau yn y mudiad Economi Cydsefyll Cymdeithasol a fu'n gadarn am ddegawdau yn yr Eidal a de Ewrop. Mae cofnod cadarn gan fentrau cydweithredol cymdeithasol yn yr Eidal ac maent wedi dangos sut i gynyddu cyd-gynhyrchu a sefydlu hyn mewn ffurfiau dilys a democrataidd o gydberchenogaeth a chyd-lywodraethu. Mae'r adolygiad hwn wedi nodi sawl mater a her datblygu allweddol lle mae arweiniad strategol yn hollbwysig er mwyn rhoi agenda cydweithredol cymdeithasol mewn sefyllfa sy'n barod am lwyddiant yn Lloegr, Cymru a rhannau eraill o'r DU.

Yn gyntaf, nid yw ymglymiad aml-randdeiliad mewn perchnogaeth a llywodraethu mentrau cydweithredol yn syml. Mae sut i gydbwyso meysydd diddordeb sydd weithiau'n gwrthdaro yn cyflwyno heriau rheoli mawr. Gellir tynnu ar dros 30 mlynedd o brofiad o'r modelau hyn yn yr Eidal a Japan a dros 15 mlynedd yn Quebec am arweiniad.

Yn ail, mae partneriaethau cydweithredol yn hollbwysig i lwyddiant gyda llywodraeth leol a chyrrff comisiynu eraill ond hefyd gyda phartneriaid buddsoddi cyfalaf cydweithredol gan amrywio o fanciau cymdeithasol i sefydliadau cyllid datblygiad cymunedol.

Yn drydydd, gellir defnyddio technoleg ddigidol, ymgysylltiad gwirfoddolwyr ac arian cymdeithasol yn greadigol i leihau costau trafodaethau sefydliadol a rheoli ac i weithredu cyd-gyflwyniad gwasanaethau. Mae'r Seikatsu Co-operatives yn Japan a'r Elder Power yn Maine, UDA yn cynnig enghreifftiau o arfer gorau.

Yn bedwerydd, mae consortia cydweithredol yn galluogi mentrau cydweithredol i gydweithredu'n effeithiol, prynu ar y cyd, sicrhau cyllid cymdeithasol, cronni risgiau, rhannu gwaith ymchwil a datblygu ac efelychu gwasanaethau'n gynt. Mae alinio'r rhain yn sefydliadol trwy strwythurau cydweithredol dosranedig a chyd-ddibynol yn anhepgor er mwyn ehangu'n genedlaethol.

Yn bumed, gall ffynhonnell wybodaeth agored, addysg dysgu gweithredol a meithrin diwylliant cydweithredu o 'gydsefyll cymdeithasol' hwyluso trosglwyddo gwybodaeth rhwng cyfoedion a meithrin datblygiad ffurfiau llorweddol o ddemocratiaeth economaidd a chysylltiol.

Yn chweched, mae angen datblygu nodau ansawdd gofal er mwyn ardystio, cynnal a gwella safonau. Mae cynnwys rhanddeiliaid ym mherchnogaeth a llywodraethu gwasanaethau gofal cymdeithasol ac iechyd yn galluogi meithrin tryloywder, atebolrwydd ac ymddiriedaeth. Gall mydryddiaeth gyfrifo gymdeithasol cost isel megis Prove It a'r Balance Scorecard fesur lles, helpu gwelliannau parhaus y gwasanaeth a meithrin hygrededd.

Cyfle i ddatblygu model cydweithredol newydd ar gyfer y DU

Mae'r adroddiad yn nodi'n sylweddol fanwl agenda positif, ymarferol a democrataidd ar gyfer gweithredu cydweithredol er mwyn datblygu mentrau cydweithredol cymdeithasol ar ran y gwasanaethau gofal cymdeithasol ac iechyd yn ogystal â sectorau eraill, gan gynnwys cyflogaeth ar gyfer cyn-droseddwyr. Efallai na fydd angen newidiadau cyfreithiol, oherwydd dylai modelau cyfreithiol mentrau cydweithredol y gweithwyr, cymdeithasau lles y gymuned a modelau aml-randdeiliad parod yn y DU ar gyfer mentrau cydweithredol cymdeithasol alluogi gweithrediad strategol mwy datblygedig. Datblygwyd rhai modelau aml-randdeiliad cydweithredol pwrpasol dros y blynyddoedd diwethaf hefyd.

Gallai'r diddordeb polisi presennol mewn cyd-gynhyrchu fod yn ddim mwy na mympwy a ddaw i ben heb y strwythurau aelodaeth a pherchnogaeth sydd eu hangen er mwyn sefydlu a grymuso dinasyddion. Mae mentrau cydweithredol cymdeithasol yn fodel llwyddiannus y gellir dysgu ohono a thrwy ei fabwysiadu gellir sicrhau y gall yr arfer gorau presennol mewn arloesi cymdeithasol yn y DU ddatblygu gwreiddiau cadarn a grymuso cymunedau yn yr hirdymor.

Mae'n hanfodol cydnabod bod mentrau cydweithredol cymdeithasol yn ffurf ddemocrataidd benodol o fenter gymdeithasol. Mae'r Gynghrair Gydweithredol Rhyngwladol wedi cytuno ar gyfres o egwyddorion cyfreithiol. Mae'r adroddiad yn nodi sut y gellid trosi rhai ffurfiau parod o fentrau cydweithredol a gwasanaethau gwirfoddol yn fentrau cydweithredol cymdeithasol. Mae Ffrainc er enghraifft wedi datblygu fframwaith er mwyn galluogi hyn. Mae gofyniad hollbwysig i gyd-ddatblygu agenda polisi galluogi (gan gynnwys cymelliadau treth, cymdeithasau gwarant gydfuddiannol a systemau cyfalaf cydweithredol) gan randdeiliaid allweddol gyda chymorth y llywodraeth. Tynnir yr argymhellion yn yr adroddiad hwn o arfer gorau yn y DU ac yn rhyngwladol a gallant helpu i ffurfio'r hyn sy'n ofynnol er mwyn gweithredu strategaeth genedlaethol er mwyn i fentrau cydweithredol cymdeithasol ffynnu a llewyrchu yn y blynyddoedd sydd i ddod.



CO-OPERATIVES UK

Co-operatives UK Limited

Holyoake House

Hanover Street

Manchester M60 0AS

Tel: 0161 214 1750

www.uk.coop

Published 2014